

# CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

---

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07896964120

[cyngorybala@outlook.com](mailto:cyngorybala@outlook.com)

## Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

6/10/2016

**Presennol:** Y Maer Edith Roberts, Y Dirprwy Faer Dorothi Evans, Dilys Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Ivora Jones, Tony Parry, Alun Price, Eifion Roberts, Carol Rowlands, John Caradog Williams, Dilwyn Morgan (*Cynghorydd Gwynedd*), Lis Puw (*Clerc*).

1. Croesawodd y Maer bawb i'r cyfarfod a rhoddodd Adroddiad ar weithgareddau diweddar yn y dref. Dywedodd iddi fynychu'r Sioe Arddio yn y Rhiwlas. Derbyniodd lythyr o ddiolch ac anrheg fach am gyfarchion y dre oddi wrth drigolion Milo trwy law Dr Adrian Murray. Cynrychiolodd y Cyngor a'r dref yn achlysur dadorchuddio'r gofeb i garcharorion y Frongoch. Roedd yn achlysur urddasol a theilwng, wedi ei drefnu'n ardderchog. Cyflwynodd Maer Swydd Galway blât hardd a chopïo o'r llyfr "Rebellion in Galway" i'r Cyngor i nodi'r achlysur. Bu'r Maer hefyd mewn cyfarfod "Mynediad i'r Anabl" yn Nolgellau pryd y mynegwyd pryder am gau toiledau cyhoeddus.
2. Derbyniwyd ymddiheuriadau Sharon Evans.
3. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
4. Derbyniwyd datganiad buddiant gan Dilys Evans ym mater 12.i, sef cais cynllunio HSBC.
5. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Medi 8fed 2016.
6. **Materion y Clerc o bwyntiau gweithredu mis Medi:**

5b Biniâu gorlawn dros wyliau banc – ni chafwyd atebion gan Swyddog Gwynedd a chytunodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan i drafod y mater gyda'r swyddog.

7. Derbyniodd Mr Julian Birley y gwahoddiad i adrodd am ddatblygiadau Rheilffordd Llyn Tegid yng nghyfarfod Tachwedd.

8. Cwblhawyd yr ymgynghoriad ar Gynllun Datblygu Parc Cenedlaethol Eryri, a'r arolwg o fannau agored

10 i Cadarnhawyd wrth swyddogion Gwynedd na fydd y Cyngor Tref yn cynnal y toiledau'r flwyddyn nesaf; cyfeiriwyd y swyddogion at Bartneriaeth Penllyn.

10.ii Derbyniodd Cyngor Gwynedd yr awgrym o Langywer a'r Bala i ymestyn y cyfyngiad 40mya wrth bont Mwnwgl y Llyn at hanner ffordd fyny allt Tŷ'n Gwrych.

Rhoddodd y Clerc Adroddiad o Gynhadledd SLCC gan ganolbwyntio ar y newidiadau i'r drefn Cynllunio. Bu trafod hefyd yno ar y drefn newydd o archwilio'r cyfrifon.

7. **Biniâu halen** - trafodwyd cyflenwi halen i finiau. Nodwyd fod y cynllun gwirfoddolwyr "Eryr Eira" yn barod i glirio prif balmentydd y dref os bydd rhew neu eira.

8. **Coed Nadolig** - rhoddwyd ystyriaeth i'r tendrau a ddaeth i law a dewiswyd cyflenwr.

## 9. Y Cynghorydd Sir

Adroddodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan ei fod wedi bod yn llwyddiannus yn ei gais am grant er mwyn gosod arwyddion i atgoffa gyrwyr beiciau modur o'r angen i yrru'n ddiogel. Bydd cyflenwad o bamffledi hefyd i'w dosbarthu i'r gyrwyr. Mae'r Heddlu ar hyn o bryd yn ymgyrchu i ddarbwylllo'r sawl sy'n reidio beiciau heb olau ac ar balmentydd fod hyn yn arfer peryglus. Mae Dilwyn Morgan wedi gohebu eto gyda'r Cynulliad am yr angen i ail-wynebu a thacluso'r Stryd fawr. Erbyn hyn mae hefyd angen i Adran y Cefnffyrdd docio rhai o'r coed. Mae wedi gofyn i'r Adran Cefnffyrdd yng Nghaerdydd i osod arwydd yn cyfeirio ymwelwyr at y cae pêl droed. Mae wedi codi mater llygod mawr mewn ardaloedd yn y dref lle mae bwyd yn cael ei luchio neu storio; mae'r mater yn derbyn sylw'r swyddogion perthnasol.

## 10. Un Llais Cymru

Derbyniwyd adroddiad Eluned Jones ac Ivora Jones o'r Pwyllgor Ardal lle bu trafodaeth ar dai fforddiadwy a gofynion annheg cwmni cyfrifwyr BDO ar glercod. Cytunwyd i fynegi anfodlonrwydd y Cyngor am y drefn newydd wrth Un Llais Cymru.

Hyfforddiant y dyfodol sydd wedi eu nodi ar gyfer Canolfan Henblas:

30/11/16 – Deall y gyfraith

18/1/17 - Sgiliau Cadeirio (ond yn debygol o newid i hyfforddiant i Glercod)

22/2/19 - Cynllunio Cymunedol

3/2/17 – Datganoli gwasanaethau

Mynegodd Dorothei Evans, Edith Jones, Eifion Roberts Eluned Jones a'r Clerc ddymuniad i fynychu hyfforddiant Tachwedd. Cytunwyd ei bod yn bwysig cefnogi hyfforddiant sydd yn cael ei gynnal yn Y Bala.

11. **Cyfarfod Triathlon** - derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr o gyfarfod anffurfiol a gynhaliwyd gyda'r Trefnydd newydd. Mae ganddo lawer o syniadau am ganoli gweithgareddau yn y dref, yn arbennig diwedd y ras. Efallai bydd yr amseriad yn newid er mwyn cynyddu nifer y dyrfa. Mae ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i gynnal ras i'r plant. Ni thrafodwyd pryderon am gau'r ffordd A494 gan nad oedd cynrychiolwyr o Lanuwchllyn wedi gallu bod yn bresennol. Bydd ras y flwyddyn nesaf yn un a fydd yn cymhwyso ar gyfer Ewrop.

## 12. Materion Cynllunio

- i. Cymeradwywyd cais NP5/53/L41R sef amnewid peirian ATM ar lefel is yn HSBC Stryd Fawr
- ii. Cymeradwywyd cais NP5/53/183D sef dymchwel anecs a chodi anecs newydd ym Mryn y Groes, Heol Pensarn

## 13. Materion Cyllid

Rhodddwyd ystyriaeth i'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf. Cymharwyd y gwariant gyda'r hyn a osodwyd yn y Gyllideb. Mae'r gwariant o dan y pennawd "Asedau" yn uwch nag a osodwyd yn y Gyllideb, yn bennaf oherwydd gwaith angenrheidiol a wnaed ar y Domen, ond neilltuwyd arian wrth gefn ar gyfer hyn yn y flwyddyn flaenorol.

Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis:

- i. HMRC – PAYE
- ii. Y Cyfnod - hysbyseb tendrau coed Nadolig
- iii. N Lloyd - hysbysfwrdd y Domen; gosod mainc ym Maes y Gerddi
- iv. Cyflog y Clerc (mis Medi)
- v. Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf am gyfraniad tuag at weithgareddau lles yr Henblas
- vi. Costau teithio Cynghorwyr a Chlerc

#### **14. Gohebiaeth**

- i. Diolchwyd i Gyngor Cymuned Llandderfel am eu sylwadau parthed blerwch hen Ysgol Tŷ Tan Domen. Mae Cyngor Y Bala wedi ymdrechu ers amser i ddarganfod pwy sydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r safle, ac wedi llythyru sawl gwaith. Cytunodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan wneud ymholiadau yn Adran Trethi Cyngor Gwynedd.
- ii. Cytunodd y Clerc i gyflwyno sylwadau i'r Comisiwn Ffiniau ar y cynigion cychwynol i newid ffiniau etholaethau seneddol.
- iii. Nodwyd derbyn Arolwg gan Eluned Morgan AC.
- iv. Rhodddwyd ystyriaeth i lythyr gan gangen leol o Gymdeithas y Cymod. Cytunodd y Maer i drafod gyda threfnydd lleol Sul y Cofio cyn dod i benderfyniad am archebu torch wen.
- v. Derbyniwyd cynnig gan dîm o benseiri dan hyfforddiant i gydweithio ar brosiectau; bydd y Cynghorydd Dilwyn Morgan yn cysylltu gyda nhw parthed lloches bws.
- vi. Derbyniwyd gwahoddiad i agoriad swyddogol y cae 3G a chytunodd Eifion Roberts, Dilys Evans, Eluned Jones, Carol Rowlands a John Caradog Williams i gynrychioli'r Cyngor. Cytunwyd i noddi'r bêl pan fydd baner croeso'r Cyngor yn cael ei osod

**15. Partneriaeth Penllyn:** adroddodd y cynrychiolwyr fod Huw Antur wedi ymweld â phob un o'r pum Cyngor. Ymwelodd Ysgrifennydd Cabinet dros Llywodraeth Leol, Mark Drakeford, â'r Henblas ac i drafod gyda Phartneriaeth Penllyn. Mynegodd werthfawrogiad o'r gwaith y mae'r Partneriaeth yn ei wneud a chyfeiriodd at y Partneriaeth yn ei araith i Gynhadledd Cenedlaethol Un Llais ac wrth gyflwyno'i syniadau yn y Senedd.

**16. Asedau'r Cyngor** - derbyniwyd adroddiad Carol Rowlands ar eu cyflwr. Mae Cyngor Gwynedd wedi gwneud gwaith da iawn yn diogelu wal y Domen ac adroddodd fod y Domen mewn cyflwr da. Cytunodd Eifion Roberts i symud y bag sbwriel oddi yno. Cytunodd John Williams i dynnu'r fflagiau dros y gaeaf.

Mae gwybodaeth wedi ei roi i swyddogion Cyngor Gwynedd am y biniau yn Heol y Berwyn.

#### **17. Materion lleol y Cynghorwyr Tref**

- i. Derbyniwyd llythyr yn amlinellu'r perygl wrth ddefnyddio'r groesfan ar ben y Stryd Fawr. Cytunwyd i anfon ar frys i dynnu sylw Adran y Cefnffyrdd yn Llywodraeth Cymru, Heddlu

Gogledd Cymru ac Arfon Jones, Comisiynydd yr Heddlu gyda chopi i sylw Dafydd Elis Thomas (AC). Cytunwyd ar yr un pryd i ofyn am fesurau i atal damweiniau wrth groesfan Ysgol y Berwyn, gan awgrymu cyfyngiad o 20mya oherwydd bod yr ysgol a'r ffordd mor agos at ei gilydd.

- ii. Cytunwyd i ofyn i'r perchennog docio'r gwrych sydd wedi gordyfu dros y palmant ym Maesybronnydd.
- iii. Derbyniwyd llythyr, yn cynnwys lluniau, oddi wrth drigolion Maesybronnydd yn cwyno fod staff sydd yn gweithio yn y dref ac eraill yn defnyddio'r ystâd fel maes parcio. Nodwyd fod nifer o gerbydau yn cael eu gadael ar y palmentydd a bod hyn yn gorfodi i blant gerdded ar y ffordd. Cytunwyd i anfon at Gyngor Gwynedd i ofyn am wasanaeth y Gwardeiniaid Parcio yn yr ardal hon. Cytunwyd i ofyn i swyddogion PCSO'r Heddlu gadw llygad ar y sefyllfa a rhoi taflenni rhybuddio ar y ceir hyn.